# Esgobaeth Llanelwy
# – sut mae'n gweithio


## Cyflwyniad

Mae Esgobaeth Llanelwy yn un o chwe esgobaeth yn yr Eglwys yng Nghymru, sydd yn dalaith ymreolaethol o fewn y Cymundeb Anglicanaidd byd-eang o Eglwysi. Mae'r esgobaeth yn gymuned o 229 o eglwysi yn cwmpasu siroedd Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam a rhannau o Wynedd a Phowys. Mae'n gofalu am 51 o ysgolion, gan gynnwys un ysgol uwchradd ffydd a rennir.

Mae'r daflen hon wedi ei chynllunio i'ch tywys drwy strwythur Esgobaeth Llanelwy, gan nodi'r berthynas rhwng y grwpiau amrywiol, y cynadleddau, y pwyllgorau a'r rolau sydd ag awdurdod a dylanwad.

Bydd pob grŵp yn cael ei ddiffinio; bydd ei gylch gwaith yn cael ei amlinellu; bydd ei atebolrwydd yn cael ei egluro a'i aelodaeth yn cael ei esbonio. Lle bo'n briodol, rhoddir gwybodaeth yn esbonio sut i gymryd rhan.

## Organogram - yn dangos atebolrwydd rhwng grwpiau




Mae'r diagram hwn yn dangos dim ond y llinellau atebolrwydd rhwng y gwahanol gyrff. Mae'r cynulleidfaoedd ynghyd â'r Gynhadledd Esgobaethol a'i gangen weithredol, y Pwyllgor Sefydlog, yn meddiannu canol yr esgobaeth. Mae pob grŵp yn atebol i'r Gynhadledd Esgobaethol, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gyfrwng ei Phwyllgor Sefydlog.

# Grwpiau a'u hatebolrwydd yn Esgobaeth Llanelwy

Cynhadledd Esgobaethol

## Y Gynhadledd Esgobaethol

Beth ydyw? Y Gynhadledd Esgobaethol yw corf llywodraethu Esgobaeth Llanelwy.

Beth mae'n ei wneud? Mae'n cyfarfod yn flynyddol ar gyfer cynhadledd diwrnod cyfan, gyda'r busnes o ddydd i ddydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Sefydlog. Mae'n gyfrifol am fusnes yr esgobaeth ac ethol cynrychiolwyr esgobaethol i grwpiau taleithiol.

Sut mae'n atebol? Mae grym gan y Gynhadledd Esgobaethol i reoli ei materion ei hun, ac mae'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd a rheolaeth Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru.

Sut mae pobl yn gallu ymuno? Mae pob eglwys yn cael ei chynrychioli yn y gynhadledd gan gynrychiolydd a etholir am gyfnod o dair blynedd gan bob Cynhadledd Ardal Genhadaeth. Mae'r cynrychiolwyr hynny'n gyfrifol am gynrychioli barn eu Pwyllgor Eglwys a'r gynulleidfa, a chyflwyno adroddiad ar fusnes yr esgobaeth yn ôl i'w Cynhadledd Ardal Genhadaeth, Pwyllgor yr Eglwys a chynulleidfaoedd. Yn ogystal, mae pob clerig yn yr Esgobaeth, aelodau ex-officio, aelodau a enwebwyd ac aelodau cyfetholedig, mewn penderfyniad yn unol â'r Cyfansoddiad, hefyd yn mynychu. Mae gan bob aelod hawliau pleidleisio.

Pwyllgor Sefydlog

## Pwyllgor Sefydlog

Beth ydyw? Y Pwyllgor Sefydlog yw pwyllgor gweithredol y Gynhadledd Esgobaethol.

Beth mae'n ei wneud? Mae'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn i drafod a phleidleisio ar faterion polisi, strategaeth a strwythur esgobaethol ac i awdurdodi camau gweithredu.

Sut mae'n atebol? Mae'n atebol i'r Gynhadledd Esgobaethol.

Sut mae pobl yn gallu ymuno? Mae pob Cynhadledd Ardal Genhadaeth yn ethol un aelod lleyg ac un aelod clerigol (o blith ei chynrychiolwyr Cynhadledd Esgobaethol) i'r Pwyllgor Sefydlog. Mae aelodau ex-officio hefyd yn aelodau, yn unol â Chyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru a chyfansoddiad y Gynhadledd Esgobaethol.

Y Gynulleidfa

## Y Gynulleidfa

Beth ydyw? Mae gan bob eglwys ledled yr Esgobaeth gynulleidfa.

Beth mae'n ei wneud? Y gynulleidfa yw'r bobl sy'n cymryd rhan ym mywyd yr eglwys.

Sut mae'n atebol? Mae pob eglwys yn rhan o Ardal Genhadaeth. Gall cynulleidfaoedd enwebu ac ethol aelodau i Bwyllgor yr Eglwys a'r Gynhadledd Ardal Genhadaeth.

Sut mae pobl yn gallu ymuno? Mae pob eglwys yn agored i bawb – mae croeso i bawb.

Pwyllgor yr Eglwys

# Pwyllgor yr Eglwys

**Beth ydyw?** Gall pob eglwys sefydlu Pwyllgor Eglwys.

**Beth mae'n ei wneud?** Bydd Pwyllgor yr Eglwys yn gyfrifol am redeg ei heiddo, ei chyllid a materion lleol eraill o ddydd i ddydd.

**Sut mae'n atebol?** Mae Pwyllgor yr Eglwys yn atebol i'r gynulleidfa a'r Gynhadledd Ardal Genhadaeth.

**Sut mae pobl yn gallu ymuno?** Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Pwyllgor yr Eglwys mae'n rhaid i chi fod yn gymunwr yn yr eglwys ac ar Rôl yr Etholwyr.

---

Cynhadledd Ardal Genhadaeth

# Cynhadledd Ardal Genhadaeth.

Fel rhan o Golwg 2020, mae Deoniaethau'n esblygu i Ardaloedd Cenhadaeth. Erbyn 2017, bydd pob eglwys yn rhan o Ardal Genhadaeth.

**Beth ydyw?** **Mae pob Cynhadledd Ardal Genhadaeth yn elusen unigol a lywodraethir** gan gyfraith elusennau a chyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru.

**Beth mae'n ei wneud?** Y Gynhadledd Ardal Genhadaeth sy'n pennu cyfeiriad strategol yr Ardal Genhadaeth. Bydd ganddi bwerau'r hen Gyngor Plwyfol Eglwysig a'r Gynhadledd Ddeoniaethol a bydd yn hyrwyddo holl genhadaeth yr Eglwys. Bydd yn nodi ac yn adolygu anghenion yr Ardal Genhadaeth mewn perthynas â phobl, cyllid, adeiladau ac eiddo.

**Sut mae'n atebol?** Mae'r Gynhadledd Ardal Genhadaeth yn atebol i'r Gynhadledd Esgobaethol.

**Sut mae pobl yn gallu ymuno?** Mae Cynrychiolwyr o bob eglwys o fewn yr Ardal Genhadaeth yn cael eu hethol i'r Gynhadledd Ardal Genhadaeth am gyfnod o dair blynedd. Bydd dau warden yn cael eu penodi ar gyfer yr Ardal Genhadaeth ac fe fyddan nhw'n gweithredu fel cyd-gadeiryddion lleyg y Gynhadledd Ardal Genhadaeth.

---

Y Deon a'r Cabidwl

# Y Deon a'r Cabidwl

**Beth ydyw?** Y Deon a'r Cabidwl yw'r corff ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am redeg yr Eglwys Gadeiriol. Yr Eglwys Gadeiriol yw Mam Eglwys yr esgobaeth.

**Beth mae'n ei wneud?** Mae'n rheoli materion ariannol, cenhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys Gadeiriol.

**Sut mae'n atebol?** Yn y pen draw mae'r Deon a'r Cabidwl yn atebol i'r Dalaith drwy'r Gynhadledd Esgobaethol

**Sut mae pobl yn gallu ymuno?** Mae'r Deon yn uwch swydd glerigol yn yr esgobaeth. Mae'r Cabidwl yn cael ei benodi gan yr Esgob drwy ymgynghori â'r Deon. Mae gan y Gadeirlan gynulleidfa, ac mae croeso i bawb yno.

Gweinidogion Trwyddedig

## Gweinidogion Trwyddedig

Mae Gweinidogion Trwyddedig yn cynnwys pob offeiriad ordeiniedig, diaconiaid a gweinidogion lleyg trwyddedig yn yr esgobaeth. Mae tua 90 o offeiriaid yn yr esgobaeth ar hyn o bryd, y rhan fwyaf ohonyn nhw'n gweithio'n llawn amser, ond mae gan rai yrfaoedd y tu allan i'r eglwys, neu wedi ymddeol ac yn gweithio'n wirfoddol fel offeiriaid wedi eu hyfforddi'n llawn. Mae pob clerig yn mynychu'r Gynhadledd Esgobaethol. Ceir gweinidogion lleyg trwyddedig hefyd, fel darllenwyr lleyg, efengylwyr a chaplaniaid bugeiliol.

Mae Gweinidogion Trwyddedig yn atebol i'w Harchddiacon lleol a'r Esgob.
Os ydych chi'n teimlo galwad i Weinidogaeth Drwyddedig, naill ai fel lleygwr neu'n ordeiniedig, mae modd i chi gael rhagor o wybodaeth ar
http://stasaph.churchinwales.org.uk/life/steering-groups/developing/

Archddiaconiaid

## Archddiaconiaid

Mae Esgobaeth Llanelwy wedi ei rhannu'n dair ardal ddaearyddol, sy'n cael eu galw'n archddiaconiaethau: Llanelwy, Wrecsam a Maldwyn, pob un dan oruchwyliaeth Archddiacon. Mae pob archddiaconiaeth wedi ei rhannu'n Ardaloedd Cenhadaeth. Mae Archddiaconiaid yn offeiriaid sy'n rhannu gwaith yr Esgob o oruchwylio clerigion a gweinidogion trwyddedig yn eu harchddiaconiaethau. Maen nhw hefyd yn cefnogi Ardaloedd Cenhadaeth mewn perthynas â materion yn ymwneud ag adeiladau a chyllid.

Yr Esgob

## Yr Esgob

Gelwir yr esgob i oruchwylio'r esgobaeth; i arwain a dysgu, ond hefyd i gyflawni tasgau penodol, fel ordeinio a thrwyddedu Gweinidogion yr eglwys, awdurdodi gwahanol weinidogaethau ar ran yr Eglwys, a chonffyrmio Cristnogion.

Caiff Esgob Llanelwy ei ethol gan grŵp o aelodau'r eglwys a elwir yn Goleg Etholiadol. Mae'r Coleg yn cynnwys chwe aelod a etholir gan bob esgobaeth (tri aelod lleyg a thri chlerig), gyda deuddeg aelod yn cael eu hethol gan yr esgobaeth lle mae'r Esgob yn cael ei ethol. Ynghyd â'r esgobion eraill, mae hyn yn ffurfio coleg o 47 aelod. Mae angen dwy ran o dair o fwyafrif i ethol esgob.

Staff yr Esgob

## Staff yr Esgob

Mae Staff yr Esgob yn cadw trosolwg cyfannol ar waith cynllunio strategol a gweithredol yr esgobaeth. Maen nhw'n cyfarfod yn fisol ac yn ymgynghori ar faterion a rennir sydd o bwys esgobaethol. Mae'r grŵp yn cefnogi gweinidogaeth yr esgob ac mae'n atebol i'r Gynhadledd Esgobaethol drwy ei Phwyllgor Sefydlog.

Mae Staff yr Esgob yn cynnwys yr Esgob, y tri Archddiacon, Deon Eglwys Gadeiriol Llanelwy, Ysgrifennydd yr Esgobaeth, Caplan yr Esgob ac eraill drwy wahoddiad yr Esgob.

# Grwpiau Llywio

Mae swyddogaethau strategol yr Esgobaeth wedi cael eu rhannu'n dri grŵp llywio sy'n atebol i'r Gynhadledd Esgobaethol drwy ei Phwyllgor Sefydlog.




## Y Grŵp Llywio Ymgysylltu

Cylch gwaith y grŵp llywio ymgysylltu yw ysgogi a darparu adnoddau i gynulleidfaoedd drafod a gweithredu ar faterion gweithredu cymdeithasol a chyfiawnder yn y byd. Mae modd i chi gael manylion ar: http://stasaph.churchinwales.org.uk/life/steering-groups/engaging/




## Y Grŵp Llywio Datblygu

Pwrpas y Grŵp Llywio Datblygu yw annog a goruchwylio gweinidogaeth a hyfforddiant trawsnewidiol ar gyfer yr holl glerigion a lleygwyr ledled yr esgobaeth. Mae modd i chi gael manylion ar: http://stasaph.churchinwales.org.uk/life/steering-groups/developing/




## Y Grŵp Llywio Meithrin

Rôl y Grŵp Llywio Meithrin yw annog a thyfu'r ffydd Gristnogol, datblygiad ac ysbrydolrwydd plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae modd i chi gael manylion ar: http://stasaph.churchinwales.org.uk/life/steering-groups/nurturing/

Mae aelodaeth pob grŵp llywio yn agored i unrhyw un sydd â'r sgiliau priodol. Yn ôl yr angen, bydd pob grŵp yn hysbysebu i lenwi bwlch sgiliau.




## Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth

Y Bwrdd Cyllid yw'r corff cyfreithiol sy'n gofalu am eiddo a chyllid yr esgobaeth. Mae'n hyrwyddo gwaith a diben yr Eglwys yng Nghymru, yn benodol Esgobaeth Llanelwy. Y Bwrdd Cyllid yw cyflogwr staff yr esgobaeth a'r corff cyfreithiol sy'n gyfrifol am weinyddu eiddo ac ymddiriedolaethau'r esgobaeth. Mae'r Bwrdd Cyllid yn atebol i'r Gynhadledd Esgobaethol, drwy gyfrwng ei Phwyllgor Sefydlog a'r Comisiwn Elusennau.

Mae aelodaeth y Bwrdd Cyllid yn cynnwys aelodau ex-officio, aelodau etholedig (un clerig a dau aelod lleyg o bob archddiaconiaeth) a hyd at bedwar aelod cyfetholedig lleyg, y mae gofyn i bob un ohonyn nhw fod ar rôl etholwyr eu plwyf. Mae aelodau'n cael eu hethol i'r Bwrdd Cyllid gan Bwyllgor Sefydlog y Gynhadledd Esgobaethol.




## Y Pwyllgor Grantiau

Mae'r Pwyllgor Grantiau yn dyrannu adnoddau ariannol i ganiatáu ceisiadau o bob rhan o'r esgobaeth i gefnogi cenhadaeth yr eglwys. Mae'r grŵp yn atebol i Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth a'r Gynhadledd Esgobaethol drwy ei Phwyllgor Sefydlog.

Mae'r Pwyllgor Sefydlog yn derbyn enwebiadau ac yn gyfrifol am benodi aelodau'r pwyllgor yn seiliedig ar sgiliau addas a phrofiad o grantiau.

Bwrdd Eiddo'r Esgobaeth

## Bwrdd Eiddo'r Esgobaeth

Crëwyd Bwrdd Eiddo'r Esgobaeth yn 2017 pan gyfunwyd y Bwrdd Persondai a'r Pwyllgor Eglwysi a Bugeiliol. Mae'r Bwrdd newydd hwn yn trefnu cynnal a chadw, atgyweirio a gwella persondai, adeiladau eglwysi a mynwentydd mewn ffordd sy'n rhyddhau Ardaloedd Cenhadaeth i ganolbwyntio ar weithgarwch cenhadol. Mae hefyd yn adolygu'r angen bugeiliol am yr asedau hyn yn yr esgobaeth ac yn cynghori'r Esgob, Corff y Cynrychiolwyr, Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth a'r Gynhadledd Esgobaethol yn briodol. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys nifer cyfartal o glerigion a lleygwyr ac mae'n cynnwys aelodau ex-officio, tri aelod etholedig a benodir gan Gynhadledd yr Esgobaeth a thri aelod a benodir gan yr Esgob.

Swyddfa'r Esgobaeth

## Swyddfa'r Esgobaeth

Caiff staff Swyddfa'r Esgobaeth eu cyflogi i gyflawni gwaith a phwrpas Esgobaeth Llanelwy. Maen nhw'n cael eu cyflogi gan Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth, ac yn atebol i'r Gynhadledd Esgobaethol drwy ei Phwyllgor Sefydlog.

## Am ragor o wybodaeth

Ewch i: http://stasaph.churchinwales.org.uk/

Gallwch ddarllen cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru ar:
http://www.churchinwales.org.uk/structure/representative-body/publications/downloads/the-constitution/